Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Y Swyddfeydd Cyffredinol**
**Steelworks Road**
**Glynebwy**
**Blaenau Gwent**
**NP23 6DN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent yw tua 67,000 o bobl, ac mae'r boblogaeth ysgolion yn cynnwys tua 9,400 o ddisgyblion. Mae 25 o ysgol yn yr awdurdod lleol, gan gynnwys un ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol arall yn Ne Ddwyrain Cymru ar gyfer rhai o'i wasanaethau addysg, gan gynnwys gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion (y Gwasanaeth Cyflawni Addysg), gwasanaeth cymorth rhanbarthol ar gyfer lleiafrifoedd ethnig (GEMS), a gwasanaeth cymorth rhanbarthol ar gyfer dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a chyfathrebu (SENCOM).

Cafodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Gweithredol ar gyfer Pobl ac Addysg ill dau eu hethol i'w rolau ym mis Mai 2022. Dechreuodd y Prif Weithredwr dros dro yn ei swydd ym mis Ebrill 2022, a dechreuodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yn ei swydd yn Nhachwedd 2020.

Yn 2022-2023, cyllideb addysg yr awdurdod lleol yw tua £66,637,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2022-2023 yw £5,697, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £5,032.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol ym mis Ionawr 2013. Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc ym Mlaenau Gwent wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 30.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 23%
- Mae 6.2% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 13.3%
- Mae 1.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol
- Mae 1.1% o ddisgyblion sy'n 5 oed neu'n hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 15.6%
- Mae gan 17.3% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig

## Crynodeb

Mae’r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da â’i wasanaethau addysg ers iddo gael ei arolygu ddiwethaf tua deng mlynedd yn ôl, oherwydd aethpwyd i’r afael â meysydd pwysig i’w gwella, i raddau helaeth. Un o bedair blaenoriaeth yr awdurdod lleol yn ei gynllun corfforaethol presennol ar gyfer 2022-2027 yw ‘uchafu dysgu a medrau ar gyfer yr holl ddysgwyr i greu Blaenau Gwent sy’n llewyrchus, yn ffyniannus ac yn wydn’. Mae gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig ymrwymiad cryf i addysg, ac adlewyrchir hyn yn y cyllid a roddir i ysgolion a gwasanaethau addysg.

Yn gyffredinol, mae’r awdurdod lleol yn cynllunio’n dda i wneud yn siŵr fod ganddo ddarpariaeth addysg addas i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Dros y degawd diwethaf, mae’r awdurdod lleol wedi lleihau nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion yn llwyddiannus, ac wedi gwella cyflwr ei adeiladau ysgol. Mae’r awdurdod lleol yn datblygu ei ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn briodol. Er y bu rhai datblygiadau cadarnhaol mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae ansawdd y cynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol yn amrywiol.

Mae llawer o gryfderau yng ngwaith yr awdurdod lleol i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a’i gymorth ar gyfer teuluoedd mewn aelwydydd incwm isel. Mae llawer o gryfderau hefyd yn y gwasanaethau i gefnogi lles plant a phobl ifanc a hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol.

Mae’r awdurdod wedi gweithio gyda’i wasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion i gryfhau’r her a’r cymorth y mae’n eu darparu i ysgolion. Caiff y gwaith hwn fwy o effaith ar gyfer plant mewn lleoliadau nas cynhelir a lleoliadau oedran cynradd nag ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliadau oedran uwchradd. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn rhy araf i wella mewn dwy ysgol a roddwyd mewn categorïau statudol.

Er gwaethaf cryfderau mewn gwasanaethau addysg, nid yw arweinwyr corfforaethol wedi sicrhau bod eu gweledigaeth a’u nodau strategol ar gyfer addysg wedi cael eu deall yn llawn gan swyddogion eraill, aelodau etholedig, staff ysgol a phartneriaid allanol. Hefyd, nid yw arweinwyr corfforaethol wedi sicrhau bod y cynllun corfforaethol yn cael ei gefnogi gan gynlluniau cyflwyno cydlynus ar gyfer addysg sy’n cynnwys camau gweithredu cysylltiedig a meini prawf llwyddiant mesuradwy. At ei gilydd, nid yw ansawdd yr hunanwerthuso, cynllunio ar gyfer gwella, a rheoli perfformiad, yn ddigon cryf.

## Argymhellion

A1 Gwella arweinyddiaeth gorfforaethol gwasanaethau addysg

A2 Gwella ansawdd hunanwerthuso, cynllunio strategol a rheoli perfformiad

A3 Cyflymu gwelliannau mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion oedran uwchradd mewn ysgolion sy'n achosi pryder

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

# Prif ganfyddiadau

## Deilliannau

Ni allwn roi gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19 a achosodd i arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill gael eu hatal rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2022. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir eu cymharu dros gyfnod gan fod y pandemig wedi achosi newidiadau i'r ffordd yr oedd cymwysterau'n cael eu dyfarnu, ac wedi effeithio ar y rhan fwyaf o ddata arall yr ydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16. Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom wyth o ysgolion cynradd, un ysgol bob oed ac un ysgol uwchradd. At ei gilydd, roedd deilliannau arolygu yn ystod y cyfnod hwn yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Barnom fod safonau'n dda ym mhob ysgol gynradd, ac eithrio un ohonynt. Fodd bynnag, barnwyd bod safonau yn yr ysgol bob oed a'r ysgol uwchradd yn ddigonol ac yn anfoddhaol yn y drefn honno, a gosodwyd y ddwy ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Er bod un o'r ysgolion hyn wedi cael ei thynnu o'i chategori, roedd y ddwy ysgol hyn yn araf yn gwella safonau ar ôl eu harolygiad. Ers ailddechrau arolygiadau ym mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu dwy ysgol gynradd ac ysgol arbennig. Gofynnom i'r ddwy ysgol gynradd ddarparu astudiaethau achos arfer dda, ond mae angen mesurau arbennig ar yr ysgol arbennig.

Yn y tair blynedd cyn dechrau'r pandemig, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd bum gradd TGAU neu fwy, gradd C neu'n uwch yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion yr awdurdod. Perfformiodd un ysgol yn gyson dda, perfformiodd un ysgol yn gyson foddhaol, roedd tuedd o waethygu mewn un ysgol, a pherfformiodd un ysgol yn gyson wael.

Yn yr arolygiadau ysgolion rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, barnwyd bod lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda mewn llawer o ysgolion. Am y tair blynedd rhwng 2017 a 2019, roedd presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion yn gyson is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch na phresenoldeb eu cyfoedion yn genedlaethol, ac roedd cyfraddau absenoliaeth barhaus ac absenoldeb heb awdurdod yn cyd-fynd yn fras â chyfartaleddau cenedlaethol, sy'n gadarnhaol o ystyried cyd-destun economaidd-gymdeithasol yr awdurdod. Roedd cyfradd y gwaharddiadau ysgol cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, er bod cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r bobl ifanc yn mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn gryfder arbennig o ystyried y lefelau hanesyddol uchel o bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH), ac o ystyried cyd-destun economaidd-gymdeithasol heriol yr awdurdod. Mae pobl ifanc yn parhau i elwa ar gymorth gan swyddogion dynodedig y

tu hwnt i'w cyrchfan gychwynnol ar ôl Blwyddyn 11 sy'n eu helpu i symud i gyrchfan addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amgen os nad yw popeth yn mynd fel y dylai yn eu cyrchfan gychwynnol.

Ar hyn o bryd, mae plant a phobl ifanc yn elwa ar ystod eang o wasanaethau i gefnogi eu lles. Caiff plant a phobl ifanc rhwng 10 a 25 oed eu cefnogi'n dda gan wasanaeth cwnsela'r awdurdod mewn ysgolion a chymunedau sydd, ar gyfartaledd, yn arwain at ostyngiadau sylweddol mewn gofid emosiynol. Mae gan ofalwyr ifanc gardiau adnabod sy'n helpu lleihau rhwystrau sy'n gallu eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau y mae eu cyfoedion yn eu mwynhau, ac elwa arnynt. Mae plant a phobl ifanc fregus yn elwa ar weithgareddau am ddim ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau sy'n datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn cefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol, eu hiechyd a'u lles corfforol.

O roi'r cyfle iddynt, mae plant a phobl ifanc yn yr awdurdod yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Caiff person ifanc ei ethol o'r Fforwm Ieuenctid i fod yn aelod o'r pwyllgor craffu sy'n ystyried materion addysg. Mae llais disgyblion oedran uwchradd wedi cefnogi datblygu grwpiau cymorth LHDTC+ cymwynasgar ym mhob un o'u hysgolion.

### Gwasanaethau addysg

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn herio a chynorthwyo lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir i wella?

Mae swyddogion ym Mlaenau Gwent yn adnabod eu hysgolion yn dda, ar y cyfan, ac wedi datblygu dealltwriaeth dda o gyd-destunau gwahanol ysgolion. Yn dilyn adolygiad o strwythur y gwasanaeth addysg, creodd yr awdurdod lleol rôl uwch arweinyddiaeth ddynodedig ar gyfer gwella ysgolion a chynhwysiant. Mae hyn wedi cynyddu capasiti'r awdurdod lleol i weithio'n agosach ag ysgolion a chysylltu'n fwy effeithiol â'r gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion, sef y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA).

Mae swyddogion wedi cryfhau a gwella eu perthnasoedd ag uwch arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn teimlo bod swyddogion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn ystyried eu barn. Er enghraifft, nododd penaethiaid fod medrau darllen disgyblion yn wannach ar ôl y pandemig ac mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu'r GCA i gynorthwyo ysgolion i wella'r medrau hyn.

Mae'r awdurdod lleol a'r GCA yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gefnogi ysgolion. Mae gan bartneriaid gwella ysgolion gynllun gwaith strwythuredig gydag arweinwyr ysgolion ar draws y flwyddyn academaidd, gan ddechrau â sesiynau sy'n canolbwyntio ar hunanwerthuso ysgolion a thrafodaethau proffesiynol â staff allweddol o'r ysgol, yr awdurdod lleol a'r GCA. Mae'r sesiynau hyn yn helpu nodi lefel a natur y cymorth y bydd ysgolion yn elwa arno i'w galluogi i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella yn llwyddiannus. Mae un cynllun ar gyfer pob ysgol yn amlinellu'r cymorth y bydd yr ysgol yn ei gael, manylion am wariant grantiau, blaenoriaethau gwella'r ysgol a gwerthusiadau tymhorol o'r cynnydd yn erbyn y rhain. Mae swyddogion yn gweithredu ymagwedd haenog at roi cymorth i ysgolion. Pan fydd angen cymorth ychwanegol ar ysgolion, mae swyddogion yn gweithredu'r

ymagwedd Tîm o Amgylch yr Ysgol i sicrhau ymagwedd gyfannol sy'n diwallu anghenion teilwredig yr ysgol.

Ar hyn o bryd, nid oes yna unrhyw ysgolion cynradd neu leoliadau nas cynhelir sydd angen gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae swyddogion wedi nodi ychydig o ysgolion cynradd sydd angen eu gwella. Mae'r awdurdod lleol a'r GCA wedi darparu cymorth da ar gyfer yr ysgolion hyn i'w helpu i wella. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cryfhau'r corff llywodraethol a chomisiynu cymorth cwricwlwm trwy'r broses 'rhwydwaith lleol o ysgolion'. Pan mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'i bwerau statudol i benodi llywodraethwyr, mae'n gofalu ei fod yn gweddu medrau ac arbenigedd llywodraethwyr yn agos i anghenion yr ysgol.

Mae tîm blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol a'r athro ymgynghorol o'r GCA yn rhoi cyngor ac arweiniad effeithiol i'r tri lleoliad nas cynhelir. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer gwerthuso a chynllunio gwelliant, yn ogystal ag arweiniad ar sut i greu amgylchedd ysgogol ar gyfer plant ifanc. Mae'r cymorth hwn yn helpu'r lleoliadau i gyflwyno darpariaeth o ansawdd da ar gyfer eu plant.

Mae angen mesurau arbennig ar ddwy ysgol yn yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, sef un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig, a thynnwyd un ysgol bob oed o'r categori angen gwelliant sylweddol ym mis Chwefror 2022. Mewn dwy o'r tair ysgol hyn, ni wnaeth swyddogion gydnabod diffygion pwysig na'r angen i arweinwyr yr ysgol wneud gwelliannau sylweddol cyn i'r rhain gael eu nodi gan arolygwyr. Mae cyflymdra'r gwelliant yn y ddwy ysgol hyn wedi bod yn rhy araf. Mae adolygiadau o gynnydd yn yr ysgolion hyn yn dangos nad eir i'r afael yn ddigon cyflym â phroblemau a nodwyd adeg yr arolygiadau, yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu, a'u bod yn effeithio ar gynnydd dysgwyr am gyfnod rhy hir. Nid yw swyddogion yn monitro cynnydd yn ddigon agos nac yn sicrhau bod partneriaid gwella ysgolion yn gosod meini prawf llwyddiant ddigon manwl gywir a ffocysedig y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn. Mewn ychydig o achosion lle nad oedd partneriaid gwella yn meddu ar y wybodaeth a'r medrau arbenigol perthnasol i allu cefnogi a herio ysgolion, heriodd yr awdurdod lleol y GCA a sicrhau bod partneriaid gwella addas yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r GCA a'r awdurdod lleol yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gyfer staff ar bob lefel mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni a hyfforddiant arweinyddiaeth cenedlaethol i gefnogi addysgu a dysgu. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno'i raglenni ategol defnyddiol ei hun ar gyfer darpar benaethiaid a phenaethiaid newydd, sy'n helpu lliniaru'r her o ran recriwtio uwch arweinwyr profiadol i ysgolion yn y sir. Mae newidiadau diweddar i'r rhaglen i gynorthwyo llywodraethwyr yn golygu eu bod yn awr yn elwa ar hyfforddiant sy'n gweddu'n well i'w hanghenion.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn profiadau a deilliannau addysg ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi?**

Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad clir i leihau effaith tlodi ar ddeilliannau addysg. Mae swyddogion yn adnabod eu cymunedau'n dda ac yn defnyddio gwybodaeth y maent yn ei chasglu'n lleol, arolygon cenedlaethol ac adroddiadau i nodi anghenion a blaenoriaethu adnoddau. Mae penaethiaid gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol wedi sefydlu cyngor gwrthdlodi ac mae aelodau etholedig wedi sefydlu grŵp

argyfwng costau byw yn ddiweddar. Mae aelodau etholedig wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r broblem hon, ac mae 'hyrwyddwr trechu tlodi' aelodau newydd yn dod â gwybodaeth ac arbenigedd i helpu cefnogi'r agwedd hon ar eu gwaith. Mae aelodau'n edrych y tu hwnt i'r hawdurdod i weld beth y gallant ei ddysgu oddi wrth bobl eraill i helpu gwella Blaenau Gwent i'w ddinasyddion.

Mae swyddogion yn cydweithio'n dda ar draws cyfarwyddiaethau ar faterion yn ymwneud â thlodi er mwyn gallu targedu adnoddau tuag at y rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae hyn yn helpu teuluoedd bregus i fanteisio ar wasanaethau ble gallant gael cyngor, cefnogaeth a chymorth ymarferol addas. Mae swyddogion yn gweithio'n dda â grwpiau elusennol lleol i ddarparu cymorth ar gyfer teuluoedd sy'n cael trafferthion ariannol, yn ogystal â sicrhau nad yw tlodi mislif yn arwain at anfantais addysgol.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o ymagweddau i helpu lliniaru effeithiau tlodi cyn-ysgol ac yn ystod blynyddoedd cynnar plant mewn addysg. Mae hyn yn dechrau cyn geni gyda chymorth ar gyfer darpar famau, er enghraifft annog bwyta'n iach a datblygu medrau cyllidebu. Ceir grwpiau ar gyfer mamau newydd i helpu â rhianta, er enghraifft y rhaglen 'Lap not App' sy'n hyrwyddo datblygiad bondiau a pherthnasoedd. Mae hybiau Dechrau'n Deg wedi'u lleoli o fewn cymunedau lleol yn bennaf i'w gwneud mor hygyrch ag y bo modd. O fewn yr hybiau hyn, ceir cymorth cyfannol ar gyfer rhieni, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant i gael mynediad at gyflogaeth.

Mae swyddogion yn sicrhau bod ysgolion yn gwario eu grantiau datblygu disgyblion yn briodol, gan eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau tra ystyriol a'u herio ar effaith eu gwario. Mae penaethiaid yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparodd yr awdurdod yn ystod y pandemig. Mae rhaglenni cyfoethogi yn ystod gwyliau ysgol yn darparu gofal plant strwythuredig i blant allu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, crefft ac amgylcheddol. Darperir pryd o fwyd bob dydd ar gyfer plant sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni hyn, maent yn dysgu coginio ryseitiau syml ac iach ac yn cael cyfleoedd i baratoi prydau bwyd i'w teuluoedd eu bwyta gyda'i gilydd.

O fis Medi 2022, cynyddodd yr awdurdod lleol gapasiti arlwyo i ddarparu prydau ysgol am ddim yn gyffredinol ar gyfer pob disgybl i fyny i Flwyddyn 2, gan fynd y tu hwnt i isafswm gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim yn y cyfnod hwn. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda dietegwr arbenigol i sicrhau bod prydau bwyd yn iach a maethlon, a'u bod yn darparu'n briodol ar gyfer nifer gynyddol o ddisgyblion â gofynion deietegol arbennig. Yn ychwanegol, mae cydlynwyr ysgolion iach yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, er enghraifft trwy hyrwyddo byrbrydau iach yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'r awdurdod yn nodi plant a phobl ifanc o bob oedran gan ddefnyddio ystod o fesurau risg addas. Caiff anghenion y rhai mwy bregus eu hystyried gan banelau amlasiantaethol. Mae gweithwyr proffesiynol yn olrhain, monitro a chynorthwyo plant a phobl ifanc fregus trwy weithiwr cymorth penodol. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn cael cymorth yn ystod cerrig milltir pwysig, fel trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y sector ôl-16.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ariannu pedwar gweithiwr cymdeithasol i weithio gydag ysgolion ar draws clystyrau. Mae hyn yn galluogi ysgolion i drefnu cymorth priodol yn

gyflym ar gyfer disgyblion a theuluoedd i leihau risg ymddieithrio o'r ysgol a dysgu. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi ailddechrau ei waith ymgysylltu â theuluoedd ar ôl y pandemig, er enghraifft trwy gynorthwyo disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol a'r rhai sydd â gorbryder adeg arholiadau.

Mae'r awdurdod yn cydnabod gwaith gofalwyr ifanc yn yr awdurdod a'r heriau y gallant eu hwynebu. Mae gweithwyr proffesiynol yr awdurdod lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol yn nodi gofalwyr ifanc yn rhagweithiol er mwyn iddynt allu cynnig cymorth addas iddynt. Dros y tair blynedd ddiwethaf, rhoddwyd Cerdyn Adnabod Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Ifanc i ofalwyr ifanc, sy'n golygu y gallant fanteisio ar amrywiaeth o fuddion a chymhellion buddiol i'w helpu nhw a'u teuluoedd, fel mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden a chaniatâd i gasglu presgripsiynau ar gyfer y rhai maent yn gofalu amdanynt. Mae aelodau etholedig yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad gofalwyr ifanc mewn seremoni wobrau flynyddol.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion i hyrwyddo perthnasoedd parchus a mynd i'r afael ag ymddygiad negyddol yn effeithiol?**

Trw'r gwasanaeth seicoleg addysg a 'gwasanaeth arfer gynhwysol', gall pob ysgol fanteisio ar ystod o gymorth addas i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a pharchus a mynd i'r afael ag ymddygiad negyddol yn effeithiol. Mae'r ddau wasanaeth hyn yn gweithio'n agos â'i gilydd.

Mae swyddogion yn y gwasanaeth seicoleg addysg yn darparu hyfforddiant buddiol ar gyfer staff ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Maent yn darparu arweiniad gwerthfawr i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) sy'n eu helpu i ystyried sut orau i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu un o'i ysgolion arbennig i ddarparu'r 'gwasanaeth arfer gynhwysol' ar gyfer ysgolion eraill. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth buddiol i staff ddeall ymddygiadau mewn ysgolion ac yn ymateb yn briodol. Yn ddiweddar, mae wedi addasu ei ymagwedd o gynorthwyo disgyblion unigol yn uniongyrchol i ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion er mwyn iddynt allu cynorthwyo disgyblion eu hunain.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu arweiniad newydd ynghylch 'perthnasoedd ac ymddygiad cadarnhaol' a pholisi 'perthnasoedd (gwrthfwlio)', er mai cyfyngedig oedd ymglymiad ysgolion a dysgwyr wrth ddatblygu'r rhain. Mae'r polisi gwrthfwlio yn amlinellu'r disgwyliad y bydd ysgolion yn cofnodi'r holl ddigwyddiadau honedig o fwlio, gan amlinellu'r mathau penodol o fwlio, yn cynnwys bwlio sy'n gysylltiedig â disgyblion â nodweddion gwarchodedig. Yn y gorffennol, nid oedd yr awdurdod lleol wedi bod yn casglu gwybodaeth am achosion gan ysgolion mewn ffordd a fyddai'n ei alluogi i nodi problemau posibl a gweithredu arnynt. Mae'r awdurdod lleol wedi gwella'i waith yn y maes hwn trwy brynu system rheoli gwybodaeth am ddiogelu ar gyfer pob ysgol sy'n cael ei defnyddio i gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau a demograffeg disgyblion cysylltiedig ar lefel ysgol, ac yn coladu'r wybodaeth hon yn ganolog. Mae'n rhy gynnar i werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol a'i ysgolion yn defnyddio'r system hon.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu offeryn effeithiol i nodi'n gynnar, sy'n nodi plant a phobl ifanc rhwng 7 a 25 oed a allai fod mewn perygl o gael eu gwahardd neu ymddieithrio ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu fod yn ddigartref. Trwy Teuluoedd yn Gyntaf ac ymagwedd amlasiantaethol, mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cynnar buddiol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn. Mae gwasanaeth ieuenctid Blaenau Gwent yn darparu cymorth cryf ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH). Trwy weithio'n agos â gwasanaethau cymorth eraill, mae gweithwyr ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc ar sail un i un ac mewn grwpiau, mewn ysgolion ac yn eu cymunedau, fel ei gilydd. Mae'r ymagwedd gydlynus hon wedi helpu pobl ifanc i barhau i ddangos diddordeb yn eu haddysg ac wedi cefnogi gostyngiad mewn gwaharddiadau ysgol. Mae cyfran y bobl ifanc NACH wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf, ac fe gaiff pobl ifanc eu cefnogi'n gadarnhaol y tu hwnt i'w cyrchfan gychwynnol ar ôl Blwyddyn 11.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cydlynu gwasanaeth cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 10 a 25 oed a ddarperir mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth buddiol ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae seicolegydd cymunedol yn darparu cymorth mwy arbenigol ar gyfer pobl ifanc, os oes angen, lle na allant fanteisio ar hyn trwy lwybrau traddodiadol. Yn fwy diweddar, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu therapi chwarae ar gyfer plant ym Mlwyddyn 2 i Flwyddyn 6. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall ymddygiadau yn well a rheoli eu perthnasoedd gyda phobl eraill, yn ogystal â lleihau eu gofid emosiynol.

Defnyddir tîm ieuenctid datgysylltiedig dynodedig yn effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau lleol. Er enghraifft, yn dilyn pryderon am ymddygiad rhai pobl ifanc mewn maes parcio y tu allan i oriau ysgol, defnyddiodd gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig eu medrau i ailgyfeirio pobl ifanc at weithgareddau mwy addas. Mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau ble bynnag mae'r tîm hwn wedi gweithio, ac mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwaith ysgolion i hyrwyddo perthnasoedd da.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod wedi sefydlu panel dysgwyr bregus, sy'n cynnwys uwch arweinwyr o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed. Fe'i sefydlwyd mewn cydweithrediad ag ysgolion i wella lles disgyblion bregus a helpu lleihau gwaharddiadau. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y panel hwn yn ychwanegu gwerth at yr ystod bresennol o wasanaethau.

Mae'r ystod o wasanaethau cymorth defnyddiol i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol mewn ysgolion a chymunedau yn golygu bod gwaharddiadau'n isel mewn llawer o ysgolion, er bod cyfraddau gwahardd uchel gan ychydig o ysgolion o hyd.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall wrth gynllunio ar gyfer ysgolion a darpariaeth addysg arall?**

Dros y deng mlynedd ddiwethaf, neu debyg, mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i leihau nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion a gwella cyflyrau ei ystâd ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd ynghylch cau ysgolion, ac uno ysgolion ac adeiladau ysgolion newydd yn eu lle. Pan fo'n briodol,

mae'r awdurdod lleol wedi moderneiddio adeiladau ysgolion, er enghraifft trwy adnewyddiadau ac estyniadau.

Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei bolisi trefniadaeth ysgolion yn gyson, ac wedi diwygio'r polisi yn ddiweddar i adlewyrchu datblygiadau diweddar, gan gynnwys effaith y pandemig. Mae'r polisi yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac yn eu hymgorffori, fel ei gynllun strategol Cymraeg mewn Addysg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion. Fodd bynnag, roedd ymglymiad penaethiaid yn y strategaeth hon yn amrywiol, ac ni ddeellir y strategaeth yn dda, ar y cyfan. Yn ychwanegol, er bod llawer o gamau priodol i wella cysylltedd a datblygiadau o ran TGCh, nid oes strategaeth glir ar gyfer TGCh.

Sefydlwyd grŵp Cymunedau Dysgu Cynaliadwy rhanbarthol de ddwyrain Cymru gan yr awdurdod lleol tua phum mlynedd yn ôl, ac mae wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar, ac yn cynnwys awdurdodau lleol o'r tu allan i'r rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae gwaith y grŵp yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am brosesau ynglŷn â chynllunio lleoedd ysgol, safoni costau, a materion yn ymwneud â chynaliadwyedd a dyluniadau carbon niwtral.

Ffocws allweddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol yw sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ac yn hygyrch ym mhob un o dri chwm y sir. Mae hon yn ymagwedd synhwyrol a phragmataidd a chaiff ei chefnogi'n dda gan gynlluniau i gynyddu mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol a meithrin. Mae'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys ystod eang o bartneriaid ac yn llywio'r gwaith hwn yn effeithiol. Mae swyddogion yn ymwybodol o'r risgiau yn gysylltiedig â pheidio â gallu cyflawni blaenoriaethau'r CSCA ac yn ystyried camau priodol i liniaru yn erbyn y risgiau hyn. Nid yw ffocws y CSCA ar wella medrau Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Phowys i edrych ar bosibilrwydd sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddarparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn y galw yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Mae gan yr awdurdod lleol ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sefydledig ym Mlaenau. Mae darpariaeth drochi yn cael ei datblygu yn yr ysgol, a fydd yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion elwa ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae cynlluniau datblygedig i agor egin ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhredegar ym mis Medi 2023. Bydd yr ysgol hon yn cynnig darpariaeth gofal plant a chanolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth hefyd.

Er gwaethaf gweithio agosach rhwng cydweithwyr mewn addysg yn ddiweddar ynghylch cynllunio darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ni ddefnyddir data yn ddigon effeithiol bob amser i lywio cynllunio hirdymor. Dangosir hyn gan y penderfyniad diweddar i gynyddu capasiti mewn ysgol arbennig gan ryw 40%. Mae anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion meddygol cymhleth, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn hysbys, ar y cyfan, o oedran ifanc iawn, felly dylid bod wedi rhagweld y galw am gapasiti ychwanegol, a chynllunio ar ei gyfer, mewn ffordd fwy amserol.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu canolfannau adnoddau defnyddiol mewn sawl ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai achosion, helpodd y canolfannau adnoddau hyn i fynd i'r afael â lleoedd dros ben yn yr ysgolion prif ffrwd, ond gan fod nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn yr ysgolion hyn wedi cynyddu, mae prinder lle mewn ychydig o ysgolion erbyn hyn. Yn 2017, cynhaliodd yr awdurdod lleol adolygiad defnyddiol iawn o ddarpariaethau canolfannau adnoddau. Nododd hyn gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y darpariaethau. Fodd bynnag, mae'r drefn o ran monitro'r darpariaethau hyn yn barhaus yn anghyson. Ceir ychydig iawn o gyfeiriadau at y darpariaethau hyn mewn nodiadau o ymweliadau gan bartneriaid gwella ysgolion. Pan gyfeirir atynt, mae'r sylwadau a wnaed yn rhy gyfyngedig i fod o unrhyw werth i'r awdurdod lleol, ac anaml y maent yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion.

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer cynhwysiant a disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, ni chaiff y weledigaeth ei chefnogi gan strategaeth glir eto. Mae ystod o ddeunyddiau polisi ac arweiniad defnyddiol iawn wedi cael eu rhannu ag ysgolion yn ddiweddar.

Mae'r awdurdod lleol yn trefnu darpariaeth ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae gan hanner y disgyblion sydd wedi eu lleoli mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ar hyn o bryd anghenion dysgu ychwanegol yn gysylltiedig â'u hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Nid yw'r awdurdod lleol yn dadansoddi ei ddefnydd o leoliadau y tu allan i'r sir yn ddigon da er mwyn deall y goblygiadau i'w gapasiti i ddiwallu anghenion disgyblion yn lleol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr ym Mlaenau Gwent yn rhoi blaenoriaeth uchel i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod lleol. Mae gan yr awdurdod lleol ddyheadau uchel ar gyfer adfywio ac addysg i alluogi'r holl blant a phobl ifanc yn yr ardal leol i ffynnu a llwyddo. Mae aelodau etholedig arweiniol ac uwch swyddogion wedi ymrwymo i wella amodau ar gyfer eu cymuned fel nad yw amddifadedd yn rhwystr rhag llwyddiant hirdymor. Mae aelodau etholedig a swyddogion yn dangos ymrwymiad cryf i 'uchafu dysgu a medrau ar gyfer yr holl ddysgwyr i greu Blaenau Gwent sy'n llewyrchus, yn ffyniannus ac yn wydn', sy'n un o'r pedair blaenoriaeth a amlinellir yn y cynllun corfforaethol 2022-2027. Mae arweinwyr corfforaethol a'r gyfarwyddiaeth addysg yn dechrau mireinio eu hymagweddau at sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei droi'n gamau gweithredu penodol a mesuradwy.

Mae uwch arweinwyr yn y gyfarwyddiaeth addysg wedi gweithio gydag aelodau etholedig ac uwch swyddogion eraill ar draws y cyngor i sefydlu gweledigaeth addas ar gyfer addysg. Y nod yw creu 'system hunanwella sy'n cael ei harwain gan ysgolion', sy'n datblygu 'ysgolion gwell, dinasyddion gwell a chymunedau gwell'. Fodd bynnag, ni chaiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n ddigon clir na chyson gan y tîm arweinyddiaeth gorfforaethol. O ganlyniad, ni chaiff y cyfeiriad strategol ar gyfer addysg ei deall yn ddigonol gan yr holl aelodau etholedig, swyddogion, na staff mewn ysgolion.

Nid yw arweinwyr corfforaethol wedi sicrhau bod y flaenoriaeth gorfforaethol a gweledigaeth y gyfarwyddiaeth ar gyfer addysg yn cael eu hadlewyrchu'n gydlynus mewn cynlluniau addysg. Mae'r cynllun corfforaethol yn amlinellu sut bydd yr

awdurdod lleol yn gwybod pa mor dda y mae'n gwneud o ran ei flaenoriaeth ar gyfer addysg, ond nid yw ystod y dangosyddion eang yn y cynllun corfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol yn feini prawf llwyddiant penodol yn erbyn camau gweithredu perthnasol mewn cynlluniau addysg. Mae'r datgysylltiad hwn rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau addysg yn amharu ar allu uwch arweinwyr i ddwyn swyddogion i gyfrif am eu gwaith a sicrhau cyflymdra priodol y gwelliant mewn meysydd a nodwyd. Serch hynny, caiff y bwrdd gweithredol, sy'n cynnwys uwch aelodau etholedig ac uwch swyddogion o bob rhan o'r awdurdod lleol, ei ddefnyddio'n briodol i ddwyn swyddogion addysg i gyfrif am gynnydd yn erbyn camau gweithredu arfaethedig. Yn y cyfarfodydd bwrdd, mae aelodau'n herio swyddogion yn briodol.

Er gwaethaf y gwendid mewn arweinyddiaeth gorfforaethol, mae'r uwch dîm rheoli addysg wedi datblygu perthnasoedd gweithio cryf â swyddogion ar draws y gyfarwyddiaeth ac yn rhoi lefel uchel o ymddiriedaeth mewn staff ar bob lefel i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae uwch reolwyr addysg yn goruchwylio'r rhan fwyaf o wasanaethau addysg a gwmpesir gan ein cwestiynau arolygu lleol yn dda. Mae'r gwasanaethau hyn wedi cryfhau dros gyfnod i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well, ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar eu deilliannau.

Mae cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli addysg yn darparu cyfleoedd addas i arweinwyr addysg fonitro cynnydd yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd. Fodd bynnag, mae ansawdd cynllunio gwelliant a gwerthuso o fewn y gyfarwyddiaeth addysg yn rhy amrywiol. Nid yw cynlluniau bob tro'n cynnwys meini prawf llwyddiant addas, ac felly mae gwerthusiadau'n canolbwyntio'n rhy aml ar b'un a yw camau gweithredu wedi cael eu cwblhau yn hytrach na'r effaith y maent wedi'i chael ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Er hynny, mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth well o gryfderau a gwendidau yn eu meysydd gwasanaeth na'r hyn a adlewyrchir mewn dogfennau cynllunio a hunanwerthuso.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn yr awdurdod lleol wedi'u sefydlu'n addas ac yn cael eu defnyddio i gynorthwyo swyddogion a'u dwyn i gyfrif. Gall swyddogion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth bob mis, ac maent yn adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y targedau a osodwyd. Er gwaethaf hyn, nid yw targedau rheoli perfformiad yn ddigon manwl gywir yn gyson, ac nid ydynt bob amser yn nodi'r agweddau penodol ar arferion y mae angen i swyddogion eu gwella. O ganlyniad, nid yw prosesau rheoli perfformiad yn cyd-fynd yn gyson â gwaith gwerthuso a gwella, ac nid yw atebolrwydd bob amser yn canolbwyntio ar yr agweddau pwysicaf ar waith swyddogion.

Ceir enghreifftiau addas o swyddogion yn manteisio ar ddysgu proffesiynol defnyddiol i wella agweddau ar eu gwaith, fel rheoli staff a chefnogi eu lles. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod lleol ymagwedd ddigon strategol at gynllunio na gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar draws y gyfarwyddiaeth.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau perthnasoedd gweithio gyda'i wasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion (GCA). O ganlyniad, mae swyddogion mewn gwasanaethau cynhwysiant yn gweithio'n agosach â phartneriaid gwella ysgolion i ddarparu ymagwedd gyfannol at gefnogi ysgolion. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi gwella'r ffordd y mae'n dwyn y CGA i gyfrif am agweddau gweithredol ar eu

gwaith, er enghraifft wrth ystyried defnyddioldeb nodiadau o ymweliadau ag ysgolion gan bartneriaid gwella ysgolion.

Mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau priodol pan fyddant yn pryderu am gynnydd ysgolion. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi cyflwyno hysbysiadau rhybudd i ychydig o ysgolion a oedd yn peri pryder ac wedi defnyddio'i bwerau i benodi llywodraethwyr ychwanegol. Mewn ychydig o achosion, mae'r cynnydd a wna ysgolion sy'n peri pryder yn rhy araf ac nid yw'r awdurdod lleol yn herio arweinwyr ysgolion a gwaith y GCA yn ddigonol, nac yn dwyn ei swyddogion ei hun i gyfrif am effaith camau gweithredu yn yr ysgolion hyn.

Mae aelodau etholedig, trwy graffu, yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiwyd. Maent yn herio a chraffu ar benderfyniadau yn rheolaidd, ac mae swyddogion yn ymateb yn brydlon i'w ceisiadau. Mae ganddynt wybodaeth ymarferol dda am yr awdurdod lleol, ac mae briffiau'r aelodau wedi darparu dysgu proffesiynol addas ar eu cyfer, sydd wedi gwella'r ffordd y maent yn dwyn yr awdurdod lleol i gyfrif am ei waith. Fodd bynnag, oherwydd y gwendidau mewn gwerthuso ar draws y gyfarwyddiaeth, nid yw aelodau bob amser yn cael darlun digon clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddwyn yr awdurdod lleol a'r GCA i gyfrif am bob agwedd ar eu gwaith.

Mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi ymrwymo i ddiogelu pobl ifanc yn eu hawdurdod lleol. Ceir diwylliant diogelu priodol o fewn yr awdurdod lleol. Caiff yr holl swyddogion ac aelodau etholedig hyfforddiant diogelu addas. Mae'r ffordd y mae gwasanaethau addysg a phlant yn gweithio gyda'i gilydd wedi cyfrannu'n dda at wella gweithio amlasiantaethol a'r cymorth a gaiff ysgolion i reoli anghenion disgyblion a'u teuluoedd yn fwy effeithiol. Caiff y cyngor a'r arweiniad y mae swyddogion yn ei roi i ysgolion ei werthfawrogi gan arweinwyr ysgolion, ac mae'n eu helpu i ymateb i bryderon am ddiogelu yn briodol. Mae aelodau etholedig yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o ddiogelu mewn addysg ac yn herio cynnwys yr adroddiadau a gânt yn briodol.

Adlewyrchir y flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i addysg gan yr awdurdod gan y ffaith fod y cyllid y mae'n ei ddyrannu ar gyfer addysg ymhell uwchlaw ei Asesiad yn Seiliedig ar Ddangosydd na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Hefyd, cynyddodd ei gyllid i ysgolion eleni gan ganran uwch na chyfartaledd Cymru. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi cyllidebu ar gyfer y gwariant uchaf fesul disgybl o blith yr holl awdurdodau yng Nghymru eleni. Mae'r awdurdod yn dirprwyo canran uwch o'i gyllideb addysg i ysgolion na llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. I gefnogi'r gwelliant i adeiladau ysgolion, mae'r awdurdod hefyd wedi dyrannu bron i £7 miliwn o'i gyllid cyfalaf dros 2019-2025 ar gyfer Band B ei raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae gan yr awdurdod hanes o wario o fewn ei gyllideb addysg yn y blynyddoedd diwethaf, gyda thanwario cymharol fach am y tair blynedd ddiwethaf yn erbyn y gyllideb addysg gyffredinol. Mae'r awdurdod yn rhagamcanu gorwario bach eleni ac yn deall y pwysau allweddol sy'n ei wynebu o ran cyllideb ar gyfer addysg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, sy'n cynnwys costau ynni a chludiant o'r cartref i'r ysgol.

At ei gilydd, cynyddodd balansau ysgolion yn y tair blynedd cyn y pandemig. Nid oedd diffyg ariannol gan unrhyw un o ysgolion yr awdurdod ar ddiwedd y llynedd. Yn

unol ag awdurdodau eraill, mae cyfanswm balansau ysgolion wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y pandemig o ganlyniad i gyllid grant ychwanegol, ond mae’r awdurdod yn rhagweld y bydd balansau ysgolion yn lleihau erbyn diwedd eleni, ac yn y dyfodol. Mae’r awdurdod wedi cymhwyso’i gynllun ar gyfer cyllido ysgolion lle roedd diffyg ariannol gan ysgolion cyn y pandemig. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cynlluniau i leihau diffyg ariannol ar waith ar gyfer ychydig iawn o ysgolion, er na chymerwyd rhai camau yn ystod y pandemig, ac roedd hyn yn briodol.

Mae’r awdurdod yn darparu ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) ar gyfer ystod o wasanaethau y mae’n eu darparu ar gyfer ysgolion, fel arlwyo a glanhau. Roedd adborth gan benaethiaid ar rai CLGau yn gymysg pan gynhaliodd yr awdurdod arolwg o ysgolion fel rhan o adolygiad o CLGau y llynedd. Diwygiwyd CLGau ar ôl ystyried adborth, ac mae lefel uchel yn manteisio ar y rhain ar gyfer 2022-2025 o ganlyniad.

Yn gyffredinol, mae nifer dda o benaethiaid yn mynychu’r Fforwm Cyllideb Ysgolion, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol fel adolygu’r fformiwla cyllid ysgolion a CLGau. Mae’r awdurdod yn defnyddio data cymharol i lywio adolygiadau o’i fformiwla cyllid ysgolion, er enghraifft ailddyrannu rhywfaint o gyllid o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Adolygwyd y fformiwla gyllido ar gyfer y naill a’r llall o’r ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae llawer o benaethiaid yn cytuno bod yr awdurdod yn darparu cymorth da ar gyfer ysgolion â’u cynllunio ariannol, ac mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr awdurdod yn rhoi cymorth da ag adnoddau dynol i ysgolion.

Mae’r awdurdod yn monitro cyflwyno gwasanaethau wedi’u comisiynu, a gwasanaethau allweddol wedi’u comisiynu, yn briodol, gan gynnwys y GCA ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, a thrafodwyd hyn yn y pwyllgor craffu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023